Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# TAFLEN FFEITHIAU 1: SUT BYDD SEFYDLU'R *COMISIWN ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL* YN EFFEITHIO AR YSGOLION A GYNHELIR SYDD Â CHWECHED DOSBARTH?

## Beth yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil?

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Bydd y Comisiwn, a fydd yn weithredol yn 2024, yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio, rheoli ansawdd a rheoleiddio yr holl addysg drydyddol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys:

- Addysg bellach (AB), gan gynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion
- Addysg uwch (AU), gan gynnwys ymchwil ac arloesi
- Addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned
- Prentisiaethau a hyfforddiant.

## Gweledigaeth Strategol

Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn darparu sector Addysg ac Ymchwil Drydyddol mwy ymroddedig, rhagorol a theg yng Nghymru sy'n blaenoriaethu buddiannau dysgwyr ac yn cyfrannu at ffyniant cenedlaethol. Dymunwn weld system gydgysylltiedig yng Nghymru sy'n hawdd i bob dysgwr ei lywio, yn cael ei gwerthfawrogi gan y cyhoedd, yn creu cymdeithas fedrus iawn, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn cael ei chydnabod ledled y byd am addysg, hyfforddiant, ymchwil ac arloesi rhagorol, ac sydd â chenhadaeth ddinesig wrth ei chalon.

Bydd ein dull gweithredu'n galluogi dysgwyr i symud yn ddidrafferth o addysg orfodol i addysg drydyddol, gan adeiladu ar ein cenhadaeth genedlaethol ar gyfer diwygio addysg.

## Cymorth i ddysgwyr

Bydd dyletswydd statudol ar y Comisiwn i baratoi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ac ymgynghori arno a'i gyhoeddi. Bwriad y Cod hwn yw sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli a bod dysgwyr yn cael cyfle i roi eu barn i ddarparwyr am yr addysg y maent yn ei derbyn ac i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau gan y darparwyr hynny.

Bydd angen i ysgolion sydd â chweched dosbarth gydymffurfio â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

## Cyllido, cynllunio a dyletswydd i sicrhau cyfleusterau priodol i ddysgwyr 16–19

Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sicrhau, cyllido a chynllunio cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant dysgwyr rhwng 16 a 19 oed, gan gynnwys y rhai mewn chweched dosbarth ysgolion a gynhelir.

Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac i'r dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn lleoliadau prif ffrwd. Bydd gan y Comisiwn rôl i'w chwarae wrth asesu digonolrwydd cyfleusterau ar gyfer darpariaeth ADY ar lefel poblogaeth gyffredinol (nid dysgwr unigol).

Bydd y Comisiwn yn dyrannu cyllid i gefnogi darpariaeth chweched dosbarth ysgolion a gynhelir drwy'r awdurdodau lleol.

## Ansawdd y ddarpariaeth

Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau ansawdd darpariaeth ôl-16 a bydd ganddo ddyletswydd statudol o ran trefniadau arolygu craidd Estyn, adolygiadau thematig ôl-16 ac adolygiadau ardal leol.

Bydd y Comisiwn yn monitro ac yn hyrwyddo gwelliant ar draws darparwyr addysg. Bydd Estyn yn parhau i arolygu ac adrodd ar ansawdd addysg, gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth, yn unol â fframwaith a gynhyrchir gan y Comisiwn.

## Trefniadaeth chweched dosbarth ysgolion

Bydd awdurdodau lleol yn parhau i gyflwyno eu cynigion eu hunain ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn unol â'r gofynion a nodir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod statudol ar gyfer Trefniadaeth Ysgolion. Nid yw hyn wedi newid na'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar delerau'r Cod.

Mae gan y Comisiwn rôl o ran cefnogi'r broses o drefnu darpariaeth chweched dosbarth ysgolion a hefyd y pŵer, o dan rai amgylchiadau cyfyngedig, i gyfarwyddo awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau ar gyfer ad-drefnu chweched dosbarth, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru.

## Cwricwlwm 16–19

Bydd gofyn i'r Comisiwn ffurfio cynnig o ran cwricwlwm lleol a bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a monitro darpariaeth ôl-16 ar draws addysg bellach a hyfforddiant gan gynnwys chweched dosbarth ysgolion.

Nod y diwygiadau ôl-16 yw adeiladu ar egwyddorion ehangach a dibenion allweddol y Cwricwlwm i Gymru, a chefnogi uniondeb y system ysgolion ehangach. Bydd gan y Comisiwn hefyd rôl wrth ddarparu dull di-dor a gwybodus ar gyfer pontio a llwybrau gyrfa i ddysgwyr sy'n dechrau addysg a hyfforddiant ôl-16.

Yn yr un modd â'r diwygiadau i'r cwricwlwm ysgolion, bydd y sector yn cael cefnogaeth i helpu dysgwyr i dyfu fel dinasyddion gweithgar a mentrus, gan gyfrannu at ffyniant a llesiant unigol a chenedlaethol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49228